**CYNGOR**
**DINAS CAERDYDD**

# DEDDF DRWYDDEDU 2003

# NODYN CANLLAW I YMGEISWYR

# CEISIADAU TRWYDDEDAU SAFLEOEDD ‘NEWYDD’ AC AMRYWIO

**16 AWST 2013**

***CYNNWYS***


| | TUDALEN |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad. | 3 |
| 2. Gweithgareddau trwyddedadwy a Gweithgareddau Clwb Cymwys | 3 |
| 3. Y Broses Gwneud Penderfyniadau | 8 |
| 4. Y Broses Cyflwyno Sylwadau | 9 |
| 5. Gwneud cais am Drwydded Safle Newydd | 11 |
| 6. Amrywio Trwydded Safle Gyfredol | 14 |
| 7. Ffioedd Gwneud Cais | 16 |
| 8. Canllaw i Lunio Amserlen Gweithredu | 19 |
| 9. Yr Amcanion Trwyddedu | 22 |
| Atal trosedd ac anrhefn | 22 |
| Diogelwch y cyhoedd | 23 |
| Atal niwsans cyhoeddus | 24 |
| Amddiffyn plant rhag niwed | 25 |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |
| Manylion Cyswllt Awdurdodau Cyfrifol | 26 |
| Templedi Hysbysiad Cyhoeddus | 27 |


Mae’r Gwasanaeth Trwyddedu yn ymrwymedig i drin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal. Rydym yn croesawu ceisiadau am wybodaeth yn Gymraeg.

## 1. CYFLWYNIAD

Lluniwyd y ddogfen hon i roi cymorth i ymgeiswyr sydd am gael neu amrywio Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb yn unol â Deddf Drwyddedu 2003. Dylid defnyddio’r canllaw hwn fel man cychwyn wrth baratoi cais. Yn ogystal â’r canllaw hwn rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at Ddatganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Dinas Caerdydd a gallent geisio cymorth proffesiynol neu gyfeirio at Ddeddf Drwyddedu 2003 a Chanllawiau lle y bo’n briodol.

## 2. Gweithgareddau trwyddedadwy a Gweithgareddau Clwb Cymwys

Mae angen trwydded i wneud y canlynol:

- Manwerthu alcohol
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i aelod o’r clwb
- Darparu adloniant a reoleiddir
- Darparu lluniaeth yn hwyr gyda’r nos

Mae’r gweithgareddau canlynol yn weithgareddau clwb cymwys:

- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i aelod o’r clwb
- Manwerthu alcohol gan neu ar ran clwb i westai aelod o’r clwb i’w yfed ar y safle lle gwerthir yr alcohol
- Darparu adloniant a reoleiddir gan neu ar ran clwb i aelod o’r clwb neu aelodau’r clwb a’u gwesteion

### Adloniant a reoleiddir

Darperir adloniant a reoleiddir gerbron cynulleidfa ac at ddiben difyrru’r gynulleidfa honno, neu at ddibenion sy’n cynnwys y diben hwnnw.

Mae adloniant a reoleiddir yn cynnwys:

- Perfformio drama
  (os oes dros 500 o bobl yn y gynulleidfa ac os y’i cynhelir cyn 8am neu ar ôl 11pm ar unrhyw ddiwrnod)
- Dangos ffilm
- Digwyddiad chwaraeon dan do
  (os oes dros 1000 o bobl yn y gynulleidfa ac os y’i cynhelir cyn 8am neu ar ôl 11pm ar unrhyw ddiwrnod)
- Adloniant bocsio neu reslo
- Perfformio cerddoriaeth fyw
  (os oes dros 200 o bobl yn y gynulleidfa ac os y’i cynhelir cyn 8am neu ar ôl 11pm ar unrhyw ddiwrnod)
- Chwarae cerddoriaeth wedi’i recordio
- Perfformiad dawns
  (os oes dros 500 o bobl yn y gynulleidfa ac os y’i cynhelir cyn 8am neu ar ôl 11pm ar unrhyw ddiwrnod)

- Unrhyw adloniant tebyg dan fantell perfformio cerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi’i recordio neu berfformiad dawns

Eithriadau:

*Arddangos ffilm: at ddibenion hysbysebu, ffurfioli, addysg ac ati.*
Nid ystyrir darparu adloniant sy'n cynnwys arddangos ffilm yn adloniant a reoleiddir os taw unig neu brif ddiben y ffilm yw:

(a) arddangos unrhyw gynnyrch,
(b) hysbysebu unrhyw nwyddau neu wasanaethau, neu
(c) roi gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd.

*Arddangos ffilm: amgueddfeydd ac orielau celf*
Nid ystyrir darparu adloniant sy'n cynnwys arddangos ffilm yn adloniant a reoleiddir os yw'n cynnwys neu'n rhan o arddangosfa a gynhelir at ddibenion amgueddfa neu oriel gelf.

*Cerddoriaeth sy'n atodol i weithgareddau penodol eraill*
Nid ystyrir darparu adloniant sy'n cynnwys perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn adloniant a reoleiddir i'r graddau ei fod yn atodol i weithgaredd arall nad yw ynddo'i hun yn adloniant a reoleiddir; neu ddarparu cyfleusterau adloniant a reoleiddir.

*Defnyddio teledu neu dderbynwyr radio*
Nid ystyrir darparu adloniant neu gyfleusterau adloniant yn adloniant a reoleiddir i'r graddau ei fod yn cynnwys derbyn a chwarae rhaglen ar y pryd.

*Gwasanaethau crefyddol, addoldai ac ati*
Nid ystyrir darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant at ddiben, neu at ddibenion sy'n atodi, cyfarfod crefyddol; neu mewn addoldy cyhoeddus, yn adloniant a reoleiddir.

*Ffeiriau gardd ac ati.*
Nid ystyrir darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant mewn ffair ardd, neu mewn digwyddiad tebyg, yn adloniant a reoleiddir. Oni hyrwyddir y ffair neu ddigwyddiad gyda'r bwriad o wneud elw preifat.

*Dawnsio morys ac ati*
Nid ystyrir darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant yn adloniant a reoleiddir i'r graddau ei fod yn cynnwys:

(a) perfformiad dawns forys neu unrhyw ddawnsio tebyg neu
(b) berfformio cerddoriaeth fyw heb ddefnyddio offer uwchseinio sy'n hanfodol i'r ddawns, neu
(c) gyfleusterau sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn adloniant yn unol â'r disgrifiad a roddir ym mharagraff (a).

*Cerbydau'n symud*
Nid ystyrir darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant ar safle sy'n cynnwys rhan o gerbyd, ac ar adeg pan nad yw'r cerbyd wedi'i barcio boed yn barhaol neu dros dro, yn darparu adloniant a reoleiddir.

*Safleoedd Cymunedol a Neuaddau Pentref*
Rhaid i Safleoedd Cymunedol a Neuaddau Pentref gael trwydded yn y modd arferol. Mae safleoedd o'r fath yn cynnwys neuaddau eglwysi neu gapel (neu adeiladau tebyg), neu unrhyw neuadd bentref, neuadd blwyf neu neuadd gymunedol (neu adeiladau tebyg). Fodd bynnag, gall cais gynnwys, yn hytrach na'r gofyniad arferol i enwi Goruchwylydd Dynodedig i'r Safle ar y Drwydded Safle, ofyniad i'r pwyllgor neu fwrdd o unigolion sy'n gyfrifol am reoli'r safle cymunedol (y pwyllgor rheoli) awdurdodi gwerthu alcohol yn lle.

**Lluniaeth gyda'r Hwyrnos**

Mae person yn darparu "lluniaeth gyda'r hwyrnos" os yw'n:

- cyflenwi bwyd poeth neu ddiodydd i'r cyhoedd, p'un ai i'w fwyta/yfed ar y safle neu oddi arno, rhwng 11.00pm a 5.00am, neu
- yn cyflenwi neu'n cyfleu eu hunain fel sefydliad sy'n fodlon cyflenwi bwyd poeth neu ddiodydd i'r cyhoedd rhwng yr oriau hyn, p'un ai i'w fwyta/yfed ar y safle neu oddi arno.

Eithriadau:

*Clybiau, gwestai, a chyflogeion*

Ceir eithriad o ran cyflenwi bwyd poeth neu ddiodydd os na chaiff pobl fynediad i'r safle, ac na chânt fwyd poeth neu ddiod o'r safle, onid ydynt:

(a) yn aelod o glwb cydnabyddedig,
(b) yn rhywun sy'n aros mewn gwesty, llety gosod, hostel, safle carafannau neu wersylla, neu unrhyw safle arall lle mai'r prif ddiben yw darparu llety dros nos, ar gyfer y noson dan sylw,
(c) yn gyflogai i gyflogwr penodol,
(d) yn rhan o fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth benodol,
(e) yn westai i rywun dan fantell paragraffau (a) i (d).

*Safleoedd trwyddedig dan Ddeddfau penodol eraill*

Eithrir cyflenwi bwyd poeth neu ddiodydd ar safle, neu oddi wrth safle, os gwneir hynny o fewn cyfnod a eithrir gan unrhyw ddeddf arall. (Cyfeirier at atodlen 2, paragraff 4 Deddf Trwyddedu 2003)

*Cyflenwadau amrywiol a eithrir*

Eithrir y cyflenwadau bwyd poeth neu ddiodydd canlynol:

(a) cyflenwi diod boeth sy'n cynnwys alcohol,
(b) cyflenwi diod boeth drwy beiriant,
(c) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth am ddim,
(d) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth gan elusen gofrestredig neu berson a awdurdodir gan elusen gofrestredig,
(e) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth ar gerbyd ar adeg pan nad yw'r cerbyd wedi'i barcio'n barhaol neu dros dro.

**Gweithgareddau mewn lleoliadau penodol nad oes modd eu trwyddedu**

Nid oes modd trwyddedu gweithgaredd os caiff ei gynnal ar:

(a) awyren, hofranlong neu gerbyd rheilffordd sydd ar daith,
(b) cerbyd sydd ar daith ryngwladol,
(c) mewn cei cymeradwy mewn porthladd neu borthladd hofer dynodedig,
(d) mewn gorsaf archwilio mewn maes awyr dynodedig,
(e) mewn palas brenhinol,
(f) ar safle sydd, ar adeg cynnal y gweithgaredd, wedi'i feddiannu'n barhaol neu dros dro at ddibenion lluoedd arfog y Goron,
(g) ar safle ag eithriad ardystiedig o ran diogelwch cenedlaethol, neu
(h) unrhyw le arall a allai gael ei ragnodi.

**Eithriad ar gyfer raffl, tombola ac ati.**

Nid ystyrir cynnal loteri a fyddai i unrhyw raddau'n cynnwys gweithgaredd trwyddedadwy am fod un neu fwy o wobrau'r loteri yn cynnwys alcohol (am y rheswm hwnnw'n unig) yn weithgaredd trwyddedadwy os yw'r:

(a) loteri yn cael ei hyrwyddo fel rhan o adloniant wedi'i eithrio,
(b) ar ôl didynnu'r holl dreuliau perthnasol, fod yr holl elw o'r adloniant (gan gynnwys o'r loteri) yn cael ei ddefnyddio at ddibenion nad yw'n elw preifat.

Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol os yw'r:

(a) alcohol nad yw mewn cynhwysydd wedi'i selio,
(b) unrhyw wobr yn y loteri sy'n un ariannol,
(c) tocyn neu siawns yn y loteri yn cael ei werthu neu ei gyflwyno, neu fod canlyniad y loteri wedi'i ddatgan, heblaw am ar y safle lle cynhelir yr adloniant ac yn ystod yr adloniant, neu
(d) mai'r cyfle i fod yn rhan o'r loteri neu'r gêm yw'r unig neu'r prif reswm i fynychu'r adloniant.

**Gwahardd gwerthu alcohol mewn ardaloedd gwasanaeth, garejys ac ati.**

Ni chaiff unrhyw drwydded safle, tystysgrif safle clwb na hysbysiad digwyddiad dros dro hawl i awdurdodi manwerthu neu gyflenwi alcohol ar safleoedd a eithrir neu ohonynt. Ystyr "safleoedd a eithrir" yw:

(a) safleoedd a leolir ar dir a gafaelwyd neu a briodolwyd gan awdurdod ffordd arbennig, ac am yr amser y'i defnyddir, i ddarparu cyfleusterau i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r defnydd o ffordd arbennig a ddarparwyd i draffig dosbarth I (gyda neu heb ddosbarthiadau eraill) ei defnyddio; neu
(b) safle a ddefnyddir yn bennaf fel garej neu sy'n ffurfio rhan o safle a ddefnyddir fel garej yn bennaf.

## 3. Y Broses Gwneud Penderfyniadau

### Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Yn unol â Deddf 2003 gall pwyllgorau trwyddedu, is-bwyllgorau dirprwyedig neu mewn achosion priodol swyddogion dirprwyedig sy’n gweithio i’r awdurdod trwyddedu, wneud penderfyniadau a chyflawni swyddogaethau. Bydd llawer o’r penderfyniadau a’r swyddogaethau’n rhai cwbl weinyddol a dan y Gyfraith, rhagdybir y caiff ceisiadau annadleuol eu derbyn (e.e. nad oes sylwadau yn erbyn dyfarnu trwydded safle). Yn yr achosion hyn caiff swyddogion ddyfarnu trwyddedau i sicrhau cyflymder, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd y broses.

Bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaeth gwneud penderfyniadau pan fo cais dadleuol. Caiff pob penderfyniad ei lywio gan Ddatganiad Polisi Trwyddedu Caerdydd, Canllawiau’r Swyddfa Gartref a gyflwynwyd dan Adran 182 y Ddeddf a’r pedwar ‘amcan trwyddedu’. Felly dylai pob cais ystyried a mynd i’r afael â’r datganiad polisi trwyddedu, y canllawiau a’r ‘amcanion trwyddedu’ yn eu ceisiadau yn ogystal â chydymffurfio â Deddf Drwyddedu 2003.

Y pedwar ‘amcan trwyddedu’ yw:

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

## 4. Y Broses Cyflwyno Sylwadau

Mae sylwadau perthnasol yn hanfodol i'r gyfundrefn a sefydlwyd gan Ddeddf Drwydded 2003 weithio'n effeithiol. Maent yn ffurfio elfen ganolog o'r broses gwneud penderfyniadau, a heb sylwadau perthnasol mae pwerau'r awdurdod trwyddedu'n gyfyngedig. I bob pwrpas, sylwadau sy'n arwain at ddisgresiwn yr awdurdod trwyddedu. Pan na chyflwynir sylwadau perthnasol a bod y cais yn cyrraedd safonau cyfreithiol gofynnol, caiff trwydded ei chyflwyno.

Rhaid i bob ymgeisydd hysbysebu ei gais mewn ffordd sy'n eu dwyn i sylw unrhyw bartïon sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cais. Rhaid i ymgeiswyr hefyd roi rhybudd i bob awdurdod cyfrifol ac unrhyw un arall a ragnodir. Felly caiff pob grŵp a all wneud sylwadau wybod am bob cais. Pan wneir ceisiadau i adolygu, yr awdurdod trwyddedu sy'n hysbysebu'r cais.

**Pwy all wneud sylwadau?**

Gellir gwneud sylwadau drwy:

- 'Awdurdodau Cyfrifol':
  - Yr Heddlu
  - Yr Awdurdod Tân
  - Yr Awdurdod Gorfodi Iechyd a Diogelwch
  - Awdurdod Cynllunio Lleol
  - Yr Awdurdod Rheoli Llygredd
  - Yr Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd
  - Corff cydnabyddedig sy'n cynrychioli buddiannau plant
  - Yr Awdurdod Safonau Masnach
  - Y Bwrdd Iechyd Lleol
  - Yr Awdurdod Trwyddedu
  - Pan fydd safleoedd ar ffin awdurdodau trwyddedu, yna dylai'r awdurdod trwyddedu na chafodd y cais...
  - Pan fo llong dan sylw neu gyrff penodol eraill

- 'Pobl eraill':
  - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sydd â sail i wneud hynny.

**Pryd y gellir cyflwyno sylwadau?**

Gall unrhyw un o'r grwpiau uchod wneud sylwadau ar:

- Geisiadau ar gyfer trwyddedau safle, tystysgrifau safle clwb a datganiadau dros dro
- Ceisiadau ar gyfer amrywiadau ar drwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb
- Ceisiadau adolygu

Ni all neb ond yr heddlu wneud sylwadau ar:

- Geisiadau i newid goruchwylydd dynodedig y safle
- Ceisiadau i drosglwyddo trwyddedau safle
- Ceisiadau am Drwyddedau Personol
- Hysbysiad troseddau deiliad trwydded bersonol

- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro
- Hysbysiadau Awdurdod Interim

**Beth ddylai sylwadau eu trafod?**

Nid yw sylw'n "berthnasol" onid yw'n cyfeirio at effaith debygol caniatáu'r drwydded ar hyrwyddo o leiaf un o'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, ni fyddai sylw gan ŵr busnes lleol ynghylch y niwed masnachol a achosir gan gystadleuaeth o safle trwyddedig newydd yn berthnasol. Ar y llaw arall, byddai sylw gan ŵr busnes fod niwsans a achosir gan y safle newydd yn atal cwsmeriaid rhag dod i'r ardal leol, a bod y camau y mae'r ymgeisydd yn eu cynnig yn annigonol i atal y niwsans hwnnw, yn berthnasol. Mewn geiriau eraill, dylai sylwadau fod yn berthnasol i effaith gweithgareddau trwyddedadwy a gynhelir ar/o safleoedd mewn perthynas â'r amcanion. O ran sylwadau mewn perthynas ag amrywiadau i fod yn berthnasol, dylent gael eu cyfyngu i bwnc yr amrywiad. Nid oes yn rhaid i awdurdod cyfrifol nac unrhyw un arall lunio hanes cofnodedig o broblemau mewn eiddo i ategu eu sylwadau, ac yn wir ni fyddai hyn yn bosibl o ran safle newydd.

**Cyfnod o Amser**

Dylid gwneud pob sylw o ran dyfarnu neu amrywio Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb ymhen 28 diwrnod o wneud y cais.

**Datganiadau Dros Dro**

Lle cyflwynwyd 'datganiadau dros dro' gan awgrymu rhoi caniatâd, cwblhawyd y gwaith adeiladu a chais am drwydded safle (ar yr un sail â'r cais dros dro), nid ystyrir sylwadau yn erbyn y cais am drwydded. Felly mae'n hanfodol fod unrhyw sylw perthnasol yn erbyn y cais yn cael ei wneud ar gam y 'datganiad dros dro'.

Fodd bynnag, <u>caiff</u> 'sylwadau perthnasol' eu hystyried pan fu newid perthnasol ers hynny neu os yw'r person sy'n gwneud y sylw'n rhoi esgus rhesymol dros beidio â chyflwyno'r syniad ar gam y 'datganiad dros dro'. Fodd bynnag, yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth a chefnogi'r sylw, rhaid cyflwyno tystiolaeth dros y newid perthnasol neu'r esgus i'r awdurdod trwyddedu.

## 5. <u>Ffurflen gais Trwydded Safle newydd</u>

**Rhaglenni**

Gall unrhyw un dros 18 oed sy'n cynnal neu'n cynnig cynnal busnes i gynnal gweithgareddau trwyddedadwy wneud cais. Perchenogion eiddo fydd y rhain gan mwyaf, ond does dim gofyniad i'r ymgeisydd reoli'r safle o ddydd i ddydd. Gallai perchennog busnes nad yw'n rheoli busnes o ddydd i ddydd wneud cais, a allai fod yn unigolyn neu'n gwmni gweithredu tafarndai.

Mae ffurflenni ar gyfer gwneud cais o'r fath ar gael gan Gyngor Dinas Caerdydd.

## ***<u>Sut i wneud cais am Drwydded Safle NEWYDD</u>***

**Anfonwch:**

- Y **ffurflen gais** briodol wedi'i chwblhau'n llawn (trwydded safle neu dystysgrif safle clwb);
- Y **ffi gywir*** (Amgaewch gopi o'ch Bil Ardrethi diwethaf i'r safle)
- **Amserlen gweithredu wedi'i chwblhau** i'r newidiadau arfaethedig i weithgareddau, amseroedd a sut y caiff yr amcanion trwyddedu eu hyrwyddo;
- **Cynllun** maint 1:100 (oni threfnwyd fel arall ag Is-adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd) o'r safle a ddylai gynnwys y manylion canlynol:
    - Lleoliad a ffiniau'r adeilad, os yn berthnasol, ac unrhyw waliau mewnol ac allanol sy'n ffurfio'r safle, neu y mae'r safle rhyngddynt;
    - Lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd y safle;
    - Lleoliad llwybrau dianc o'r safle;
    - Lleoliadau ar y safle neu ohono i'w defnyddio ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy ac, yn achos cais lle caiff y safle ei ddefnyddio am fwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy, lleoliad pob gweithgaredd;
    - Os bydd y cais yn ymwneud â chyflenwi neu werthu alcohol, lleoliad neu leoliadau ar y safle a ddefnyddir i yfed alcohol;
    - Adeileddau sefydledig (gan gynnwys celfi) neu wrthrychau tebyg dros dro mewn lleoliad sefydledig (ond nid celfi) a allai effeithio ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc yn ddirwystr;
    - Os oes gan y safle lwyfan neu ardal wedi'i chodi, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu ardal o'r llawr;
    - Lleoliad unrhyw risiau, stepiau neu lifftiau;
    - Lleoliad unrhyw gyfleusterau cyhoeddus;
    - Lleoliad a math unrhyw offer tân ac offer diogelwch tân arall gan gynnwys, os yn berthnasol, offer diogelwch morol.
    - Lleoliad cegin, os oes un ar y safle.

**Ac:**

- Os yw'r cais am drwydded safle yn cynnwys manwerthu alcohol, caniatâd deiliad y drwydded bersonol sydd am fod yn oruchwylydd dynodedig y safle;
- Os yw'r cais yn ymwneud â thystysgrif safle clwb, rhaid cyflwyno copi o lyfr rheolau'r clwb.

**Rhaid i chi hefyd ar yr un adeg gyflwyno copi o'ch cais cyfan i bob "Awdurdod Cyfrifol"** (y mae manylion cyswllt i ardal Caerdydd ar ddiwedd y ddogfen ganllaw hon) a rhaid i chi hefyd hysbysebu manylion am eich cais yn y safle ac yn y wasg leol (gweler isod). Er eich budd chi eich hun gallwch gael derbynneb i gofnodi anfon y cais, neu ei anfon drwy ddanfoniad cofnodedig a chadw'r derbynebau fel tystiolaeth fod y cais wedi'i anfon.

**Anfonwch bob cais, ynghyd â'r dogfennau amgaeedig gofynnol a ffioedd, i'r Is-adran Drwyddedu, Cyngor Caerdydd, Ystafell 203, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND.**

**<u>HEFYD</u>**

**Mae gan yr ymgeisydd ddyletswydd i hysbysebu ei gais 'Safle Newydd' mewn dwy ffordd.** Yn gyntaf, rhaid arddangos hysbysiad ar y safle mewn ffurf benodol sy'n manylu ar y newidiadau rydych am eu gwneud. Rhaid ei arddangos megis:

- hysbysiad ar ddalen llaw glas gwelw;
- ar faint A4 neu'n fwy;
- wedi'i argraffu neu ei deipio mewn inc du ym maint ffont 16 neu fwy.

Rhaid arddangos yr hysbysiad fel a ganlyn:

- mewn lleoliad amlwg yn, neu ar, y safle, fel bod modd ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle;
- am o leiaf 28 diwrnod olynol, gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl diwrnod cyflwyno'r cais i'r Awdurdod Trwyddedu;
- lle mae'r safle'n fwy na 50m sgwâr, dylid arddangos hysbysiad pellach bob 50m ar hyd perimedr allanol y safle sydd wrth unrhyw briffordd.

Yn ail, rhaid i'r ymgeisydd hefyd hysbysebu ei gais mewn papur newydd lleol a ddosberthir yn y rhan berthnasol o ardal Caerdydd, megis y South Wales Echo, y Western Mail neu bapur newydd lleol arall. Rhaid i'r hysbysiad papur newydd gael ei ddosbarthu ar o leiaf un achlysur hyd at 10 diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Is-adran Drwyddedu Cyngor Dinas Caerdydd). Dylid holi'r Is-adran Drwyddedu am ddilysrwydd y cais cyn cyflwyno'r hysbysiad i'r papur newydd.

**Rhaid** i'r hysbysiad papur newydd a'r hysbysiad a arddangosir gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Y gweithgareddau trwyddedadwy neu weithgareddau clwb cymwys perthnasol y cynigir eu cynnal ar y safle neu o'r safle;
- Manylion llawn am oriau agor arfaethedig y safle
- Enw'r ymgeisydd neu'r clwb;
- Cyfeiriad post y safle neu'r clwb, neu os nad yw hynny'n berthnasol, disgrifiad o'r safle perthnasol i alluogi'r lleoliad a'r cwmpas i gael eu nodi;

- Manylion am le y cedwir Cofrestr Drwyddedu Cyngor Caerdydd a lle y gellir ei gweld
- Y dyddiadau y gall parti â diddordeb ac awdurdod cyfrifol wneud sylwadau i Gyngor Caerdydd fel yr Awdurdod Trwyddedu;
- Datganiad fod yn rhaid i bob sylw gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig;
- Datganiad yn nodi ei fod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n esgeulus mewn cysylltiad â chais, a gallai ymgeisydd fod yn agored i dalu'r ddirwy uchaf os caiff collfarn ddiannod am y drosedd.

Os nad oes sylwadau'n dod i law ymhen y cyfnod o 28 diwrnod olynol (sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu gael y cais llawn) a bod ffurflen gais ddilys wedi'i chwblhau ac wedi'i chyflwyno ynghyd â'r ffioedd a'r gwaith papur priodol arall, a bod hysbysiadau priodol wedi ymddangos yn y papurau ac ar y safle, caiff y drwydded ei chyflwyno.

Os cafwyd sylw, bydd y tîm trwyddedu'n penderfynu p'un ai a yw'n berthnasol, ac nad yw'n blagus nac yn wamal.  Os ystyrir sylw'n blagus neu'n wamal, ni chaiff ei ystyried.  Caiff y person/corff a wnaeth y sylw wybod yn ysgrifenedig y'i hystyriwyd yn sylw plagus neu wamal. Os yw'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn fod y sylw'n berthnasol, bydd gwrandawiad gerbron yr is-bwyllgor trwyddedu.  Caiff pob parti perthnasol wybod am hyn.  Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu'n gwneud penderfyniad a chaiff manylion am y penderfyniad hwnnw ei ddosbarthu i bob parti perthnasol.

Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio. Dylai apeliadau ar drwyddedau safle, tystysgrifau safle clwb a thrwyddedau personol gael eu gwneud yn uniongyrchol i Lys yr Ynadon Caerdydd ymhen 21 diwrnod o gael eich hysbysu o'r penderfyniad.  Dylech geisio cyngor proffesiynol os nad ydych yn siŵr pa gamau y dylech eu cymryd.

## 6. Amrywio Trwydded Safle Gyfredol

Mae dwy ffordd o wneud cais am amrywio Trwydded Safle gyfredol sy'n dibynnu ar ba mor sylweddol yw'r amrywiad. Os yw'n fân amrywiad, dylid dilyn y weithdrefn cais am fân amrywiad. Fodd bynnag, pan fo'r amrywiad yn fwy sylweddol ac yn debygol o effeithio ar yr amcanion trwyddedu, rhaid cyflwyno cais llawn i amrywio.

### Mân Amrywiadau.

Pan fyddwch am fân amrywio'r drwydded bresennol, dylech gwblhau'r ffurflen gais mân amrywio a'i chyflwyno i'r awdurdod ynghyd â'r ffi gyfredol, y drwydded gyfredol a chynllun o'r safle (yn dangos lle caiff y safle ei addasu). Ni ellir defnyddio'r weithdrefn mân amrywio i ymestyn cyfnod y drwydded nac awdurdodi cyflenwi alcohol nag ymestyn oriau gwerthu alcohol, nac amrywio'r Drwydded neu'r Dystysgrif mewn ffordd sylweddol. Mae mân amrywiadau'n cynnwys:-

(a) Mân amrywiadau i adeiledd neu gynllun safle

Ni chaiff nifer o fân amrywiadau i'r cynllun effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu ystyried effaith gyfunol cyfres o geisiadau am fân newidiadau cyson i'r cynllun (e.e. fel rhan o waith cylchol i ailwampio safle) nad ydynt fesul un yn sylweddol, ond y gallent gyda'i gilydd effeithio'n andwyol ar yr amcanion trwyddedu.

(b) Mân addasiadau i Oriau Trwyddedu

Mae amrywiadau i ymestyn oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle neu oddi arno rhwng 23.00 a 07.00 neu i gynyddu hyd yr amser ar unrhyw ddiwrnod lle gellir gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle neu oddi arno wedi'u heithrio rhag y broses mân amrywio a rhaid eu hystyried yn amrywiadau llawn ym mhob achos. Caiff ceisiadau i leihau oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol neu i symud (heb drwyddedu) yr oriau trwyddedig rhwng 07.00 a 23.00 fel arfer eu prosesu fel mân amrywiadau.

(c) Dileu unrhyw amodau anghyfredol, amherthnasol neu nad oes modd eu gorfodi, neu ychwanegiadau at amodau gwirfoddol.

Gall ymgeiswyr wirfoddoli amodau fel rhan o'r broses mân addasiadau. Gallai'r amodau hyn godi o'u hasesiad risg eu hunain o'r amrywiad, neu ffurfio rhan o drafodaethau â'r awdurdodau cyfrifol neu'r awdurdod trwyddedu. Yn yr amgylchiadau hyn, gallai'r broses mân amrywio fod yn rhatach ac yn symlach wrth ddiwygio'r drwydded, yn hytrach na chynnal adolygiad, heb fod risg i'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn onid yw'r amrywiadau y cytunwyd arnynt yn rhai mân a bod y trwyddedai a'r awdurdod cyfrifol wedi dod i gytundeb gwirioneddol. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl na fydd amodau'n berthnasol mwyach e.e. mae'n bosibl nad oes angen goruchwyliaeth wrth y drws os addaswyd y

bar yn fwyty a bod yr amodau bellach yn amherthnasol. Mewn rhai achosion gallai fod angen diwygio geirio amod sy'n aneglur a/neu nad oes modd ei orfodi.

(d) Ychwanegu gweithgareddau trwyddedadwy penodol.

Bwriad y Llywodraeth yw y dylai ceisiadau i amrywio trwyddedau cerddoriaeth fyw ddilyn y broses mân amrywio onid yw'n debyg y caiff effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Yn yr un modd, mewn rhai amgylchiadau, ni chaiff ychwanegu mathau eraill o adloniant a reoleiddir, fel perfformio dramâu neu arddangos ffilmiau, at drwydded, unrhyw effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu.

Rhaid i'r ymgeisydd hysbysebu'r cais drwy bostio hysbysiad gwyn yn y safle am ddeg diwrnod gwaith. Mae gan awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb 10 diwrnod gwaith i gyflwyno sylwadau. Rhaid i'r awdurdod ystyried unrhyw sylwadau a phenderfynu ar y cais ymhen 15 diwrnod gwaith. Y prawf cyffredinol yw p'un ai a allai'r amrywiad arfaethedig effeithio'n andwyol ar un o'r pedwar amcan trwyddedu. Caiff y cais ei wrthod os cred yr awdurdod, ar ôl ymgynghori ag unrhyw awdurdod cyfrifol perthnasol, y byddai'n cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Os gwrthodir y mân amrywiad, gall yr ymgeisydd naill ai wneud cais am amrywiad llawn neu drwydded safle newydd.

<u>Amrywiadau Sylweddol</u>

Pan fo'r amrywiad yn sylweddol ac yn debygol o effeithio ar yr amcanion trwyddedu, rhaid cyflwyno cais llawn i amrywio. Mae'r cais hwn yn debyg iawn i ddyfarnu trwydded newydd ond am y ffaith nad oes angen caniatâd Goruchwylydd Dynodedig y Safle.

## 7. Ffioedd Gwneud Cais

Pennwyd ffioedd ar gyfer pob caniatâd dan Ddeddf Drwyddedu 2003 gan Lywodraeth Ganolog. Mae'r ffioedd yn seiliedig ar werth ardrethol annomestig y safle. Fe'u rhennir yn 5 band:

| Band | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth ardrethol annomestig** | £0 - £4300 | £4,301 - £33,000 | £33,001 - £87,000 | £87,000 - £125,000 | £125,001 a throsodd |

**Dylech anfon pob ffi â'r ffurflen gais neu ni chaiff y cais ei brosesu a chewch neges yn rhoi gwybod i chi am hynny. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Cyngor Caerdydd' gyda'r swm perthnasol ar gyfer y cais (gweler y dudalen nesaf).**

### TRWYDDED SAFLE A THYSTYSGRIF SAFLE CLWB

### FFIOEDD GWNEUD CAIS

| GWERTH ARDRETHOL ANNOMESTIG | BAND | FFI GWNEUD CAIS AM DRWYDDED NEU DYSTYSGRIF NEU AMRYWIAD NEWYDD | FFI I'W THALU OS BYDD Y DEFNYDD O'R SAFLE AR GYFER CYFLENWI ALCOHOL (YN GYFAN GWBL NEU'N RHANNOL) |
|---|---|---|---|
| Dim gwerth ardrethol i £4300 | A | £100 | £100 |
| £4300 - £33,000 | B | £190 | £190 |
| £33,001 - £87,000 | C | £315 | £315 |
| £87,001 - £125,000 | D | £450 | £900 |
| £125,001 ac uwch | E | £635 | £1905 |

### TALIADAU BLYNYDDOL

| GWERTH ARDRETHOL ANNOMESTIG | BAND | TÂL BLYNYDDOL | FFI FLYNYDDOL I'W THALU OS BYDD Y DEFNYDD O'R SAFLE AR GYFER CYFLENWI ALCOHOL (YN GYFAN GWBL NEU'N RHANNOL) |
|---|---|---|---|
| Dim gwerth ardrethol i £4300 | A | £70 | £70 |
| £4300 - £33,000 | B | £180 | £180 |
| £33,001 - £87,000 | C | £295 | £295 |
| £87,001 - £125,000 | D | £320 | £640 |
| £125,001 ac uwch | E | £350 | £1050 |

I weld beth yw gwerth ardrethol annomestig eich safle, nodwch y cod post ar wefan y Swyddfa Prisio yn www.voa.gov.uk.

I safleoedd sy'n cael eu hadeiladu, ac na phennwyd gwerth ardrethol annomestig iddynt, codir ffi o £315 ar gyfer ceisiadau datganiad dros dro. Dangosir ffioedd blynyddol dilynol yn ymwneud â gwerth ardrethol annomestig yr eiddo dros y dudalen.

## Digwyddiadau ar Safleoedd Mawr

Mae hon yn ffi sy'n ychwanegol at y ffioedd gwneud cais am amrywio safonol. Mae lleoliadau parhaol a phwrpasol neu a addaswyd yn adeileddol ar gyfer y gweithgaredd wedi'u heithrio o'r ffi ychwanegol. Gall safleoedd eraill gael trwydded safle parhaol, a byddent yna'n talu ffi flynyddol ychwanegol. Fodd bynnag, gallai hyn ddibynnu ar ymarferoldeb creu cynllun(iau) nad yw'n amrywio bob blwyddyn, ac amserlen gweithredu sy'n bodloni'r awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb. Fel arall, efallai y bydd angen gwneud cais am drwydded newydd bob blwyddyn.

| **Nifer y bobl** | **Ffioedd ychwanegol** |
|---|---|
| 5,000 – 9,999 | £1,000 |
| 10,000 – 14,999 | £2,000 |
| 15,000 – 19,999 | £4,000 |
| 20,000 – 29,999 | £8,000 |
| 30,000 – 39,999 | £16,000 |
| 40,000 – 49,999 | £24,000 |
| 50,000 – 59,999 | £32,000 |
| 60,000 – 69,999 | £40,000 |
| 70,000 – 79,999 | £48,000 |
| 80,000 – 89,999 | £56,000 |
| 90,000 a throsodd | £64,000 |

Bydd yr Awdurdodau Trwyddedu hefyd yn gallu codi ffioedd eraill o ran eu dyletswyddau, yn bennaf o ran digwyddiadau dros dro a thrwyddedau personol.

| | |
|---|---|
| Cais am grant neu i adnewyddu trwydded bersonol | £37 |
| Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro | £21 |
| Lladrad, colled ac ati y drwydded safle neu ddiannod | £10.50 |
| Cais am ddatganiad dros dro lle mae'r safle'n cael ei adeiladu ac ati | £315 |
| Hysbysiad o newid i enw neu gyfeiriad | £10.50 |

| | |
|---|---|
| Cais i amrywio trwydded i nodi unigolyn yn oruchwylydd safle | £23 |
| Cais am fân amrywiad i Drwydded Safle. | £89 |
| Cais i ddad-gymhwyso'r gofyniad am DPS mewn Safle Cymunedol. | £23 |
| Cais i drosglwyddo trwydded safle | £23 |
| Hysbysiad interim i'r awdurdod ar ôl marwolaeth ac ati deiliad y drwydded | £23 |
| Lladrad, colled ac ati y dystysgrif neu ddiannod | £10.50 |
| Hysbysiad o newid enw neu addasu rheolau clwb | £10.50 |
| Newid cyfeiriad cofrestredig perthnasol clwb | £10.50 |
| Lladrad, colled ac ati yr hysbysiad digwyddiad dros dro | £10.50 |
| Lladrad, colled ac ati trwydded bersonol | £10.50 |
| Dyletswydd i hysbysu newid enw neu gyfeiriad | £10.50 |
| Hawl rhydd-ddeiliad ac ati i gael ei hysbysu o faterion trwyddedu | £21 |

**Eithriadau rhag Ffioedd**

Ni chodir ffioedd ar drwyddedau safle i sefydliadau addysgol fel ysgolion a cholegau wrth ddarparu adloniant a reoleiddir ar yr amod y'i cynhelir ar gyfer ac ar ran dibenion y sefydliad addysgol. Yn yr un modd, ni chodir ffioedd am adloniant a reoleiddir o ran ceisiadau gan neuaddau eglwys/capel neu adeiladau tebyg, na neuaddau pentref/plwyf/cymunedol neu adeiladau tebyg. **Mae'r eithriadau hyn yn berthnasol o ran adloniant a reoleiddir yn unig ac nid ydynt yn berthnasol os gwerthir neu gyflenwir alcohol a/neu luniaeth gyda'r hwyrnos ar y safle.** Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r tîm trwyddedu.

## 8. <u>Canllaw i Lunio Amserlen Gweithredu</u>

Rhaid llunio amserlen gweithredu wrth wneud cais i amrywio telerau trwydded gyfredol neu wrth wneud cais am drwydded newydd. Bydd yr amserlen gweithredu'n rhan o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau ac mae'n hanfodol i lwyddiant cais.

### Gofynion

Cyn i chi ddechrau ystyried sylwadau a gwrandawiadau (a fydd yn seiliedig ar amserlenni gweithredu) mae rhai gofynion cyfreithiol penodol i'r amserlen gweithredu. Os nad yw'r gofynion sylfaenol hyn yn cael eu bodloni, ni fydd modd derbyn y cais a bydd yn rhaid cyflwyno'r cais eto. I fodloni'r safonau gofynnol rhaid i'r amserlen gweithredu gynnwys datganiadau'n amlinellu'r canlynol:

- Y gweithgareddau trwyddedadwy / gweithgareddau clwb cymwys
- Yr amseroedd y cynigir cynnal y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol / gweithgareddau clwb cymwys
- Unrhyw amseroedd eraill y cynigir agor y safle i'r cyhoedd / aelodau a'u gwesteion
- Pan fydd yr ymgeisydd am i'r drwydded fod yn un dros dro, y cyfnod hwnnw (ddim yn berthnasol i amserlenni gweithredu clybiau)
- Pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol yn cynnwys cyflenwi alcohol, gwybodaeth a ragnodwyd am oruchwylydd dynodedig arfaethedig y safle (ddim yn berthnasol i amserlenni gweithredu clybiau)
- Pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol / gweithgareddau clwb cymwys yn cynnwys cyflenwi alcohol, p'un ai a yw'r cyflenwadau'n cael eu cynnig i'w yfed ar y safle, oddi arno, neu'r ddau
- Y camau y cynigir eu cymryd i hyrwyddo'r 4 amcan trwyddedu
- Materion eraill a ragnodir

Dylai'r amserlen hefyd gynnwys disgrifiad cyffredinol o naws a gwedd y busnes i'w gynnal ar y safle. E.e. archfarchnad, sinema â chwe sgrin a bar, bwyty, tafarn â dau far, ardal fwyta a gardd yn agored i gwsmeriaid.

Gan gofio y bydd unrhyw sylwadau, a gan hynny wrandawiadau, yn seiliedig ar yr amserlen, dylai fod mor fanwl â phosibl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb ffurfio barn briodol ar ba fesurau y gallai fod angen eu gweithredu ar y cyfryw safle. Mae hefyd yn bwysig i gynlluniau ar gyfer adloniant a reoleiddir sydd ond yn addas i oedolion neu sydd â chynnwys rhywiol roi manylion llawn.

### Mynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu

Er bod pob un o'r datganiadau hyn yn hanfodol, y maes y mae angen rhoi'r sylw mwyaf iddo, ac a ddadansoddir fanylaf, yw sut y bydd yr ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r pedwar amcan trwyddedu, sef:

1. atal trosedd ac anrhefn;
2. diogelwch y cyhoedd;
3. atal niwsans cyhoeddus;
4. amddiffyn plant rhag niwed.

Dylai amserlenni gweithredu fod yn fanwl gywir ac yn glir ynghylch y mesurau arfaethedig. Wrth baratoi amserlen gweithredu, argymhella'r Swyddfa Gartref y dylai ymgeiswyr wybod disgwyliadau'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol ynghylch y camau sy'n briodol i'w cymryd i hyrwyddo'r amcanion, ac i ddangos gwybodaeth am eu hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y byddant yn eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Cyfeirier at Ddatganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Dinas Caerdydd a chanllawiau'r Cyngor. Gallai'r Gyfres o Amodau a atodir i'r nodiadau canllaw fod yn ddefnyddiol fel sail i gynnig amodau.

Gall ymgeiswyr hefyd gael cyngor am y materion hyn drwy gysylltu ag Adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd ar 029 20871651 neu drwy e-bostio trwyddedu@caerdydd.gov.uk <mailto:trwyddedu@caerdydd.gov.uk>. Fodd bynnag, cyn cysylltu â'r awdurdod byddai'n syniad da i ymgeiswyr gwblhau eu hasesiadau risg eu hunain a cheisio barn trigolion lleol a'r awdurdodau cyfrifol allweddol. Er enghraifft, o ran materion sy'n ymwneud â throsedd ac anrhefn, dylid cysylltu â'r heddlu, ac o ran materion yn ymwneud â sŵn, dylid cysylltu â swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol. (Mae manylion cyswllt ar ddiwedd y canllawiau hyn)

**Ymgynghoriad:**

Er y bydd gan bob ymgeisydd a phob awdurdod cyfrifol hoff ddewis gwahanol o ran ymgynghori, disgwylir i bob ochr gydweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo ar y cyd.

Dylai ymdrechion cydweithredol o'r fath leihau gwrthdaro sy'n deillio o amserlenni gweithredu. Pan nad oes unrhyw wrthdaro, bydd y camau a nodir i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a nodir yn yr amserlen gweithredu'n aml yn troi'n amodau a atodir i Drwydded Safle / Tystysgrif Safle Clwb yn ddidrafferth.

Dylai amodau a gynigir i'r amserlenni gweithredu fod yn realistig ac o fewn rheolaeth rheolwyr y safle. Os dyfernir trwydded / tystysgrif ag amodau atodedig sy'n gofyn i gamau o'r fath gael eu cymryd, bydd modd gorfodi'r amodau dan y gyfraith, a bydd diffyg cydymffurfiaeth â hwy'n drosedd. O ganlyniad, byddai'n gwbl amhriodol gosod amodau y tu hwnt i reolaeth y sawl sy'n gyfrifol am redeg y safle.

**Deddfwriaeth Arall**

Heblaw am baratoi'r amserlen gweithredu dylai ymgeiswyr gofio eu dyletswyddau dan ddeddfwriaeth arall sy'n effeithio ar eu gweithgareddau a dylent geisio cyngor addas pan fônt yn ansicr.

**Crynodeb:**

Wrth baratoi amserlen gweithredu dylid cyflawni'r canlynol:

- Bodloni'r gofynion cyfreithiol
- Cyfeirio at Ddatganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Dinas Caerdydd
- Ystyried pa fesurau y byddech yn eu cyflawni i fynd i'r afael â phob Amcan Trwyddedu
- Wrth benderfynu ar ba fesurau y byddai angen i chi eu cyflawni i fynd i'r afael â phob Amcan Trwyddedu gallwch ystyried Canllawiau a ryddhawyd dan Adran 182 Deddf Drwyddedu 2003 gan y Swyddfa Gartref.
- Ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol a'r awdurdodau cyfrifol yn ôl yr angen
- Cysylltu â'r Adran Drwyddedu neu gael cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen
- Mynd i'r afael ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n effeithio ar y gweithgareddau rydych am eu cyflawni

**Gwybodaeth am Rannu Data**

Mae dyletswydd ar yr awdurdod i ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir ganddo, ac i'r perwyl hwnnw gall ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych yn y cais hwn er mwyn atal a chanfod achosion o dwyll. Gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

Am ragor o wybodaeth, gweler Hysbysiad Prosesu Teg - Testun Cryno yn www.caerdydd.gov.uk/twyll a'r testun llawn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.wao.gov.uk/ourwork/2060.asp

# Yr Amcanion Trwyddedu

## Atal trosedd ac anrhefn

Dylai manylion am unrhyw systemau Teledu Cylch Cyfyng (TCC) ar y safle a/neu oddi arno sydd ag arwyddion addasu sy'n gysylltiedig â'r TCC gael eu cyfeirio atynt yn yr Amserlen Gweithredu. Wrth osod system TCC newydd, dylid ceisio cyngor gan adran berthnasol Heddlu De Cymru rhag ofn bod angen defnyddio deunydd ohoni er tystiolaeth.

Gall bod yn aelod o grwpiau lleihau troseddu a mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd helpu i atal dihirod rhag cael mynediad i'ch eiddo. Gallai grwpiau o'r fath a'r Heddlu rannu gwybodaeth â'i gilydd ynghylch materion fel ailwerthu nwyddau a ddygwyd, achosion diweddar o ddrwgweithredu a gwybodaeth am droseddau yn erbyn busnesau. Gellid ffurfio ac ymuno â grwpiau o'r fath. Caiff gwaharddiad effaith fawr ar fywyd cymdeithasol yr unigolion sy'n cael eu gwahardd. Gallai fod yn rhaid iddynt deithio yn llawer ymhellach i fynd i safleoedd trwyddedig ac o ganlyniad ni allant gymdeithasu â'u ffrindiau yn yr un modd. O ganlyniad, gall arwyddion atal pobl rhag camymddwyn. Hefyd, yn yr un modd ag y mae siopau manwerthu yng Nghanol Dinas Caerdydd yn gweithredu system radio ddeuffordd fel bod modd ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt a rhoi gwybod amdanynt i safleoedd eraill sy'n rhan o gynllun, gellid hefyd ystyried cynllun tebyg yn y dyfodol i safleoedd trwyddedig.

Dengys safleoedd trwyddedu sydd â pholisi mynediad cyfyngedig fod ciwio i gael mynediad yn nodweddiadol ar adegau penodol a dylent o leiaf nodi eu trefniadau goruchwylio yn yr Amserlen Gweithredu. Pan fydd pobl yn cyflawni swyddogaeth diogelwch sy'n diogelu safle, eiddo neu unigolion rhag anrhefn, difrod/niwed, lladrad neu ymosodiadau bydd yn rhaid iddynt fod wedi'u trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.

Lle y bo'n briodol, gall yr Amserlen Gweithredu nodi manylion o bryd i ddefnyddio plastig neu wydr cadarn pan fo'n berthnasol fel y'i diffinnir gan asesiad risg. Gallai fod yn well defnyddio plastig y tu allan, lle gall gwydr wedi'i dorri fod yn anodd ei lanhau neu pan allai fod mwy o dwrw fel pan fydd digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol ar y teledu neu pan gynhelir digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau mawr eraill yn y Ddinas.

Pan fydd mynedfa eiddo ar stryd gallai fod cyfyngiadau sy'n atal mynd ag alcohol oddi ar y safle. Gallai fod yn syniad da gosod arwyddion sy'n cyfleu'r ffaith mai dim ond diodydd a brynir ar y safle y gellir eu hyfed ar y safle.

Bydd cofnodion o unrhyw droseddau neu anrhefn a gwrthod gweini alcohol yn helpu i gydweithredu â'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu.

Dylid sicrhau bod digon o staffio ar gael, a bod staff, ar adegau prysur, yn archwilio pob rhan o'r safle trwyddedig yn rheolaidd gan gynnwys y tai bach ac ardaloedd eraill na ellir eu gweld yn hawdd o'r bar.

Bydd meithrin perthynas dda â swyddogion lleol yr heddlu hefyd o fudd ar gyfer atal anrhefn rhag digwydd ar eich safle.

## Diogelwch y cyhoedd

**Asesiad risg –** mae hwn yn ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 sy'n ei gwneud yn ofynnol i BOB cyflogwr gyflawni asesiad risg o weithgareddau gwaith eu cyflogeion ac unrhyw un arall a allai gael ei effeithio gan eu gweithgareddau gwaith. Rhaid i gyflogwyr â phum cyflogai neu fwy gofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad. Yn ôl Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 rhaid i berson cyfrifol gynnal asesiad risg.

Hefyd, ni chaiff deiliaid trwydded roi unrhyw un, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, mewn perygl o ran iechyd a diogelwch, yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Dylai ymgeiswyr ystyried, fel gofyniad sylfaenol, meysydd fel diogelwch trydanol, cadernid adeilad, a gosodiadau gwresogi yn rheolaidd ac ailasesu'r rhain yn dilyn unrhyw waith adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw cyffredinol mawr.

Hefyd, fel rhan o'r strategaeth Adfywio Iechyd a Diogelwch yn y DU, mae'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch wedi nodi nifer o feysydd blaenoriaeth y dylai deiliad dyletswyddau roi sylw penodol iddynt. O ran diogelwch y cyhoedd, mae'r meysydd hyn yn cynnwys lleihau anafiadau o lithro a baglu, syrthio o uchder a digwyddiadau yn ymwneud â thrafnidiaeth yn y gweithle. Felly disgwylir i bob asesiad risg ystyried y materion blaenoriaeth hyn, yn ogystal â'r rhai y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn ac unrhyw risg arall a allai fod yn gysylltiedig â'r safle dan sylw fel legionella, asbestos ac ati.

Nodwch unrhyw drefniadau cymorth cyntaf yn yr amserlen gweithredu os ydynt yn berthnasol.

**Dynodi capasiti -** Cyfrifoldeb person cyfrifol yw cynnal asesiad risg o'r busnes yn unol â gofynion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Byddai'r asesiad yn cynnwys gofyniad i chi gyfrifo capasiti cyffredinol y llwybr dianc a fydd yn ei dro'n dynodi'r nifer uchaf o bobl y gellir eu cael yn eich safle.

Mae natur y busnes yn ffactor pwysig, a dylech ddisgrifio steil y safle e.e. tafarn draddodiadol, bwyty cyfoes, sgriniau sinema ac ati. Dylech hefyd ddisgrifio natur y cleientiaid; pobl ifanc sydd am ddawnsio, pob grŵp oedran, lle i deuluoedd, pobl sydd â diddordeb mewn chwaraeon, a lleoliad y safle e.e. ymhlith tai preswyl gan gynnwys eiddo cyfagos, ymhlith safleoedd busnes nad ydynt yn weithredol gyda'r nos, a lle mae'r eiddo agosaf dros 250m i ffwrdd. Hefyd, disgrifiwch y lleoliad daearyddol; canol tref, pentref gwledig neu dreflan, maestref.

**Staff drws –** Yn gyffredinol, mae'r penderfyniad i gyflogi goruchwylwyr drws yn seiliedig ar asesiad risg ond mewn nifer o safleoedd mae'r Amodau sydd wedi'u hatodi i'r Drwydded Safle'n nodi'r amgylchiadau o ran pryd a lle mae angen staff drws â thrwydded SIA. Dylai rheolwyr fod yn sensitif i ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol fel digwyddiadau pêl-droed mawr, hyd yn oed os nad yw'ch safle'n rhan uniongyrchol o'r digwyddiad. Gall goruchwylwyr drws gynnig nifer o fuddion fel helpu i gadw pobl dan 18 oed allan o fusnesau lle mae prif weithgareddau trwyddedadwy'r busnes yw gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. Yn unol â chanllawiau, dylai fod 1 aelod o staff wrth y drws i bob 100 cwsmer, ond mae llawer o staff drws yn anfodlon gweithio ar eu pen eu hunain. Os oes amrywio mawr o'r canllawiau hyn, neu y gwneir cais am hynny, dylid rhoi rhesymau dros hynny. Sicrhewch fod trefn ar unrhyw drwyddedau SIA i staff rheng flaen neu reng ôl.

**Mae Gwasanaeth Tân De Cymru'n awgrymu'r canlynol i ymgeiswyr:**

Bydd angen i Berson Cyfrifol y safle gynnal asesiad risg tân penodol, i nodi unrhyw ganfyddiadau sylweddol, darparu offer diogelwch tân, cynllun mewn argyfwng a hyfforddiant. Rhaid asesu uchafswm y bobl (gan gynnwys staff) a ganiateir ar y safle ar unrhyw adeg. Rhaid cyflwyno cynllun llawr syml yn dangos dimensiynau'r adeilad a'r darpariaethau diogelwch tân gyda'r cais.

Delir â throseddau diogelwch tân gan Wasanaeth Tân De Cymru dan ddeddfwriaeth briodol.

## Atal niwsans cyhoeddus

Pan fydd ymgeiswyr am drwyddedau safle'n paratoi eu hamserlenni gweithredu, dylent ystyried yr opsiynau canlynol fel mesurau a fyddai, yn ôl yr angen, yn cyfrannu at atal sŵn a niwsans. Bydd asesiad risg yn dod i'r casgliad bod angen gwneud hyn yn ôl nifer o ffactorau gan gynnwys natur a gwedd y lleoliad, y gweithgareddau a gynhelir yno, lleoliad y safle, unrhyw wybodaeth leol berthnasol a'r cleientiaid y disgwylir i'r busnes eu denu.

- Oriau – gallai fod angen cyfyngiadau ar yr adegau y cynhelir gweithgareddau trwyddedadwy penodol, er gallai'r safle fod ar agor i'r cyhoedd ar adegau o'r fath. Er enghraifft, gallai fod gwaharddiad ar chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio ar ôl amser penodol, er y caniateir i weithgareddau trwyddedadwy eraill fynd rhagddynt. Awgryma'r Awdurdod hwn, pan grëir sŵn gan weithgareddau a gynhelir ar y safle trwyddedig, dylid nodi cyfyngiad amser yn yr amserlen gweithredu. Bydd yn rhaid i'r cyfyngiad hwn ystyried y trigolion a'r busnesau cyfagos a dylai fod yn gysylltiedig â mesurau eraill, y manylir arnynt isod, sydd â'r nod o leihau sŵn a niwsans. Gallai hefyd fod angen cyfyngiadau ar rannau o'r eiddo a allai gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy penodol ar adegau penodol. Er enghraifft, gallai adloniant fod wedi'i ganiatáu ar yr eiddo, ond nid yn yr ardd neu yn y mannau tu allan lle gallai effeithio ar drigolion.

- Sŵn – Rhaid ystyried ffactorau a fydd yn sicrhau nad yw eiddo cyfagos sensitif, boed yn eiddo preswyl ynteu fasnachol, yn cael ei effeithio gan weithgareddau'r safle trwyddedadwy. Gellir sicrhau hyn drwy sicrhau bod drysau a ffenestri'n rhai cadarn (ffenestr gwydr dwbl lle y bo'n bosibl) a chadw'r rhain wedi'u cau pan fo cerddoriaeth yn chwarae at ddibenion adloniant. Gallai fod angen awyru neu aerdymheru ychwanegol hefyd. Gallai cyfyngiadau sŵn, sy'n sicrhau nad yw cerddoriaeth yn cael ei chwarae'n uwch na lefel benodol, hefyd fod o gymorth i drwyddedeion, yn enwedig pan fônt yn gwahodd perfformwyr gwahanol i safle yn rheolaidd. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r offer hwn yn disodli technegau rheoli effeithiol.

- Hysbysiadau – Gallai fod angen gosod arwyddion amlwg, clir a darllenadwy ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal gyfagos yn ddistaw.

- Effeithiau Arbennig – gwahardd neu gyfyngu ar y defnydd o ffrwydron a thân gwyllt a allai amharu ar ardaloedd cyfagos.

- Gwaredu Gwastraff – Byddai angen sicrhau bod gwastraff, fel poteli, yn cael eu gosod mewn cynwysyddion y tu allan i'r safle a byddai angen sicrhau casgliadau gwaredu gwastraff bob amser i leihau ar yr effaith ar eiddo cyfagos.

Gallwch gael rhagor o help a gwybodaeth am geisiadau unigol gan yr Is-adran Rheoli Llygredd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND. (ffôn 029 871856)

## Amddiffyn plant rhag niwed

Dylech gyfeirio at Bolisi Datganiad Trwyddedu Cyngor Caerdydd (Adran 8) sy'n amlinellu'n fanylach Bolisi'r Awdurdod o ran materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed. Gallwch ddarllen copi o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ar wefan yr Awdurdod yn www.caerdydd.gov.uk

Dylech lunio datganiad o ran polisi derbyn plant yr eiddo yn manylu ar unrhyw gyfyngiadau.

Sicrhewch fod pob aelod o staff yn gwybod y dylent fod yn wyliadwrus o blant mewn perygl, a gwybod fod ganddynt gyfrifoldeb i adrodd unrhyw blant y maen nhw'n teimlo y gallent fod mewn perygl i Wasanaethau Plant Cyngor Caerdydd. Mae manylion cyswllt ar gefn y ddogfen hon.

Gall arwyddion fod yn bwysig wrth ddiogelu plant rhag niwed. Gall fod yn ddefnyddiol atgoffa rhieni a gwarcheidwaid ei bod yn anghyfreithlon i fod yn feddw a gyda phlant dan 7 oed dan eu gofal, yn arbennig pan werthir alcohol i'w yfed ar y safle. Mae hefyd yn bwysig goruchwylio plant ar bob adeg yn y mathau hyn o safleoedd. Os caniateir plant ar eich safle, disgwylir i'r amserlen gweithredu nodi unrhyw ardaloedd lle na chaniateir plant, a allai fod wrth y bar, mewn ardaloedd â pheiriannau ennill arian/gwobrau neu elfen gref o gamblo, dylai lluniaeth addas hefyd fod ar gael ar bob amser pan ganiateir plant. Sicrhewch y gall plant sydd angen defnyddio'r tai bach eu cyrraedd heb groesi ardaloedd na chaniateir iddynt fod ynddynt.

**<u>Mynediad Plant i'r Safle</u>**

Dyma grynodeb o ddarpariaethau Deddf Drwyddedu 2003 sy'n effeithio ar fynediad plant i safleoedd trwyddededig:

- Gall pobl ifanc dros 16 oed (a dan 18 oed) fynd i safle trwyddedig yn ôl disgresiwn deiliad y drwydded ond ni allant yfed na phrynu alcohol (heblaw dan eithriad pryd wrth fwrdd yn Adran 150).
- Gall plentyn dan 16 oed fynd i safle trwyddedig yn ôl disgresiwn deiliad y drwydded. Fodd bynnag, os trwyddedir y safle'n *bennaf neu'n gyfan gwbl* ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle (h.y. clybiau, bariau, tafarndai) yna rhaid i'r plentyn fod yng nghwmni oedolyn.
- Gall plentyn dan 16 oed fynd i safle trwyddedig, ond nad yw'r safle'n drwyddedig *yn bennaf neu'n gyfan gwbl* ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle (h.y. bwytai ac ati) ac nid oes angen iddo fod yng nghwmni oedolyn oni chyflenwir alcohol rhwng hanner nos a 5am.
- Ni ellir cyflenwi alcohol i bobl ifanc dan 18 oed onid ydynt yn 16 neu'n 17 oed a'u bod yng nghwmni oedolyn wrth giniawa a bod yr oedolyn yn prynu naill ai cwrw, gwin neu seidr i'w yfed wrth y bwrdd bwyd.

*Dylid nodi bod y gwaharddiad ar fynediad plant i'r safle ond yn berthnasol pan fo safle'n agored at ddibenion cyflenwi alcohol i'w yfed yno.*

## <u>Awdurdodau Cyfrifol : Manylion Cyswllt</u>

Argymhellir ymgynghori â'r holl Awdurdodau Cyfrifol cyn cyflwyno cais. Pan fydd angen cyflwyno copïau o geisiadau i Brif Swyddog yr Heddlu a/neu'r Awdurdod Cyfrifol, yn dibynnu ar fath y drwydded, dylid defnyddio'r cyfeiriadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arweinydd y Grŵp (Trwyddedu)<br>Trwyddedu<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>Neuadd y Ddinas<br>Caerdydd<br>CF10 3ND<br>029 20871651<br>trwyddedu@caerdydd.gov.uk | Prif Swyddog yr Heddlu<br>Heddlu De Cymru<br>Yr Adran Drwyddedu,<br>Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd,<br>Canolfan y Dwyrain<br>James Street<br>Caerdydd CF10 5EW<br>SWPCardiffLicensing@south-wales.pnn.police.uk |
| Y Prif Swyddog Tân<br>Adran Diogelwch Tân<br>Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br>Parc Busnes Forest View<br>Llantrisant<br>Pont-y-clun<br>CF72 8LX<br>01443 232520<br>Safety-south@southwales-fire.gov.uk | Rheolwr Gweithredol<br>Rheoli Datblygiadau ac Adeiladu<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>Neuadd y Ddinas<br>Caerdydd. CF10 3ND<br>029 20871135<br>rheolidatblygu@caerdydd.gov.uk |
| Rheolwr Gweithredol (Yr Amgylchedd)<br>Rheoli Llygredd (Llygredd Sŵn)<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>Neuadd y Ddinas<br>Caerdydd<br>CF10 3ND<br>029 20871856 neu 20871675<br>llygreddswnacaer@caerdydd.gov.uk | Rheolwr Gweithredol (Diogelu'r Cyhoedd)<br>Diogelu'r Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch)<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>Neuadd y Ddinas<br>Caerdydd. CF10 3ND<br>029 20871124<br>**(Safleoedd lle gorfodir iechyd a diogelwch gan Gyngor Dinas Caerdydd)**<br>Health&SafetyEnforcement@caerdydd.gov.uk |
| Rheolwr Gweithredol<br>Uned Diogelu ac Adolygu<br>Ystafell 337, Neuadd y Sir<br>Glanfa'r Iwerydd<br>Caerdydd.<br>CF10 4UW<br>029 2064 2828<br>uneddiogeluplant@caerdydd.gov.uk | Arweinydd y Grŵp (Diogelu Defnyddwyr)<br>Safonau Masnach – Masnachu Teg<br>Ystafell 120<br>Neuadd y Sir<br>Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd.<br>CF10 4UW<br>029 20397781<br>SGriffiths@caerdydd.gov.uk |
| Rheolwr Gweithredol Cymru<br>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Tŷ Glas, Llanisien<br>Caerdydd.<br>CF14 5SH<br>029 20263000<br>**(Safleoedd lle gorfodir iechyd a diogelwch gan yr AGID)** | **Ar gyfer Llongau Bae Caerdydd yn unig**<br>Awdurdod Harbwr Caerdydd<br>Tŷ'r Frenhines Alexandra<br>Cargo Road<br>Caerdydd.<br>CF10 4LY<br>029 20877900 |
| Dr Sharon Hopkins<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd<br>Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Ysbyty'r Eglwys Newydd<br>Park Road<br>Yr Eglwys Newydd<br>Caerdydd.<br>CF14 7XB<br>sharon.hopkins3@wales.nhs.uk | |

# CYNGOR A GWYBODAETH YCHWANEGOL I YMGEISWYR

## FFURFLENNI I YMGEISWYR EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYSBYSEBION PAPUR NEWYDD A GOFYNION HYSBYSIADAU CYHOEDDUS O RAN:

- **CAIS NEWYDD I SAFLE/SAFLE CLWB**

- **CEISIADAU AM DDATGANIADAU DROS DRO**

**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – HYSBYSIAD CYHOEDDUS O GAIS MEWN PAPUR NEWYDD LLEOL**

**CAIS AM DRWYDDED SAFLE / TYSTYSGRIF SAFLE CLWB ***
**(Adrannau 17 neu 71 o'r Ddeddf)**
*** Dileer fel sy'n briodol**

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd neu'r Clwb<br><br>Cyfeiriad post y safle neu glwb gan gynnwys Cod Post (lle y bo'n bosibl) neu ddisgrifiad i helpu i adnabod y lleoliad. | |
| Datganiad o Weithgareddau Trwyddedadwy Perthnasol neu Weithgareddau Perthnasol Cymwys y Clwb y bwriedir eu cynnal ar y safle neu o'r safle a'r oriau agor arfaethedig. | |
| | |

Gellir archwilio'r Gofrestr Drwyddedu yn yr Awdurdod Trwyddedu, **Cyngor Dinas Caerdydd**, Yr Adran Drwyddedu, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND rhwng 9.00am a 4.00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Rhaid i unrhyw sylwadau gan Awdurdod Cyfrifol neu Bobl â Budd fod mewn ysgrifen ac wedi eu hanfon i'r cyfeiriad uchod erbyn .................. Mae gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n rhyfygus mewn cysylltiad â chais yn gallu cael ei gosbi, os ceir yn euog, gyda dirwy o hyd at £5,000.

***Nodiadau:***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad hwn mewn PAPUR NEWYDD LLEOL a ddosberthir YN ARDAL LEOL Y SAFLE.***

***OS NAD OES PAPUR NEWYDD, gellir cyhoeddi'r Hysbysiad mewn CYLCHLYTHYR NEU DDOGFEN DEBYG a ddosberthir YN ARDAL LEOL Y SAFLE.***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad ar O LEIAF UN ACHLYSUR yn ystod cyfnod o DDEG DIWRNOD GWAITH gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd).***

***Yr ymgeisydd sy'n penderfynu ym mha bapur newydd lleol y dylid cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, ond mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn mai dehongliad rhesymol o 'bapur newydd lleol' yn y Rheoliad perthnasol fyddai cynnwys cyhoeddiad yn y South Wales Echo a/neu the Cardiff Post neu unrhyw bapur newydd lleol arall.***

***Rhaid i Awdurdod Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu.***

**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – HYSBYSIAD O GAIS CYHOEDDUS**

**CAIS AM DRWYDDED SAFLE / TYSTYSGRIF SAFLE CLWB (o dan Adran 17 neu 71 y Ddeddf)**

* dileer fel sy'n briodol

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd neu'r Clwb<br><br>Cyfeiriad post y safle gan gynnwys Cod Post (lle y bo'n bosibl) neu ddisgrifiad i helpu i adnabod y lleoliad. | |
| Datganiad o Weithgareddau Trwyddedadwy Perthnasol neu Weithgareddau Perthnasol Cymwys y Clwb y bwriedir eu cynnal ar y safle neu o'r safle a'r oriau agor arfaethedig | |
| | |

Gellir archwilio'r Gofrestr Drwyddedu yn yr Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Dinas Caerdydd, Yr Is-adran Drwyddedu, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND rhwng 9.00am a 4.00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus).
Dylai Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod erbyn ...........................

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n esgeulus mewn cysylltiad â chais a gallai'r gosb o gollfarn ddiannod fod yn ddirwy o hyd at £5,000

***Nodiadau:***

***Rhaid bod yr Hysbysiad hwn o'r UN MAINT NEU'N FWY NA DALEN A4 a rhaid iddo fod ar bapur LLIW GLAS GWELW. Mae'n rhaid iddo gael ei ARGRAFFU MEWN INC DU neu ei DEIPIO MEWN DU mewn FFONT SY'N CYFATEB I 16 NEU'N FWY.***

***Rhaid ei arddangos YN AMLWG ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef lle gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle.***

***Os bydd safle'n cwmpasu ardal sy'n fwy na 30 METR SGWÂR, rhaid arddangos Hysbysiad arall yn yr un ffurf BOB 50 METR ar hyd y tu allan i'r safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd.***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad am O LEIAF 28 DIWRNOD OLYNOL gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd).***

***Rhaid i Awdurdod Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu.***

**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – HYSBYSIAD CYHOEDDUS O GAIS MEWN PAPUR NEWYDD LLEOL**

**CAIS AM DDATGANIAD DROS DRO (dan Adran 29 y Ddeddf)**

<table>
<tr><td>Enw’r ymgeisydd neu’r Clwb<br><br><br>Cyfeiriad post y safle gan gynnwys Cod Post (lle y bo’n bosibl) neu ddisgrifiad i helpu i adnabod y lleoliad.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Lle bo’n hysbys, Datganiad o Weithgareddau Trwyddedadwy Perthnasol y cynigir eu cynnal ar neu o'r safle ynghyd â'r oriau agor arfaethedig.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
</table>

Gellir archwilio’r Gofrestr Drwyddedu yn yr Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Dinas Caerdydd, Yr Adran Drwyddedu, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND rhwng 9.00am a 4.00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Dylai Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i’r cyfeiriad uchod erbyn .......................

Cyfyngir sylwadau ar ôl i Awdurdod Trwyddedu gyflwyno Datganiad Dros Dro.

Mae’n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu’n esgeulus mewn cysylltiad â chais a gallai’r gosb o gollfarn ddiannod fod yn ddirwy o hyd at £5,000

***Nodiadau:***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad hwn mewn PAPUR NEWYDD LLEOL a ddosberthir YN ARDAL LEOL Y SAFLE.***

***OS NAD OES PAPUR NEWYDD, gellir cyhoeddi'r Hysbysiad mewn CYLCHLYTHYR NEU DDOGFEN DEBYG a ddosberthir YN ARDAL LEOL Y SAFLE.***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad ar O LEIAF UN ACHLYSUR yn ystod cyfnod o DDEG DIWRNOD GWAITH gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd).***

***Yr ymgeisydd sy'n penderfynu ym mha bapur newydd lleol y dylid cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, ond mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn mai dehongliad rhesymol o 'bapur newydd lleol' yn y Rheoliad perthnasol fyddai cynnwys cyhoeddiad yn y South Wales Echo a/neu the Cardiff Post neu unrhyw bapur newydd lleol arall.***

***Rhaid i Awdurdod Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu.***

**DEDDF TRWYDDEDU 2003 – HYSBYSIAD O GAIS CYHOEDDUS**

**CAIS AM DDATGANIAD DROS DRO**
**(dan Adran 29 y Ddeddf)**

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd neu'r Clwb<br><br>Cyfeiriad post y safle gan gynnwys Cod Post (lle y bo'n bosibl) neu ddisgrifiad i helpu i adnabod y lleoliad. | |
| Lle y bo'n hysbys, Datganiad o Weithgareddau Trwyddedadwy Perthnasol y cynigir eu cynnal ar neu o'r safle ynghyd â'r oriau agor arfaethedig. | |
| | |

Gellir archwilio'r Gofrestr Drwyddedu yn yr Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Dinas Caerdydd, Yr Adran Drwyddedu, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND rhwng 9.00am a 4.00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Dylai Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod erbyn .........................

Cyfyngir sylwadau ar ôl i Awdurdod Trwyddedu gyflwyno Datganiad Dros Dro.
Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n esgeulus mewn cysylltiad â chais a gallai'r gosb o gollfarn ddiannod fod yn ddirwy o hyd at £5,000

***Nodiadau:***

***Rhaid bod yr Hysbysiad hwn o'r UN MAINT NEU'N FWY NA DALEN A4 a rhaid iddo fod ar bapur LLIW GLAS GWELW. Mae'n rhaid iddo gael ei ARGRAFFU MEWN INC DU neu ei DEIPIO MEWN DU mewn FFONT SY'N CYFATEB I 16 NEU'N FWY.***

***Rhaid ei arddangos YN AMLWG ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef lle gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle.***

***Os bydd safle'n cwmpasu ardal sy'n fwy na 30 METR SGWÂR, rhaid arddangos Hysbysiad arall yn yr un ffurf BOB 50 METR ar hyd y tu allan i'r safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd.***

***Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad AM O LEIAF 28 DIWRNOD OLYNOL gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd).***

***Rhaid i Awdurdod Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu.***

# DEDDF TRWYDDEDU 2003 – HYSBYSIAD O GAIS CYHOEDDUS

## CAIS AM FÂN AMRYWIAD
## (dan Adran 41a y Ddeddf)

| | |
|---|---|
| Enw’r ymgeisydd neu’r Clwb<br><br>Cyfeiriad post y safle neu safle'r clwb gan gynnwys Cod Post (lle y bo’n bosibl) neu ddisgrifiad i helpu i adnabod y lleoliad. | |
| Manylion am yr Amrywiad y gofynnwyd amdano: | |
| | |

Gellir archwilio’r Gofrestr Drwyddedu yn yr Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Dinas Caerdydd, Yr Adran Drwyddedu, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 3ND rhwng 9.00am a 4.00pm (Dydd Llun i Ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

Dylai Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i’r cyfeiriad uchod erbyn .................................

Mae’n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu’n esgeulus mewn cysylltiad â chais a gallai’r gosb o gollfarn ddiannod fod yn ddirwy o hyd at £5,000

***Nodiadau:***

***Rhaid bod yr Hysbysiad hwn o'r UN MAINT NEU'N FWY NA DALEN A4 a rhaid iddo fod ar bapur LLIW GWYN GWELW. Mae'n rhaid iddo gael ei ARGRAFFU MEWN INC DU neu ei DEIPIO MEWN DU mewn FFONT SY'N CYFATEB I 16 NEU'N FWY.***

***Rhaid ei arddangos YN AMLWG ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef lle gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle.***

***Os bydd safle'n cwmpasu ardal sy'n fwy na 30 METR SGWÂR, rhaid arddangos Hysbysiad arall yn yr un ffurf BOB 50 METR ar hyd y tu allan i'r safle sy'n ffinio ag unrhyw briffordd.***

***Rhaid arddangos yr Hysbysiad am O LEIAF 10 DIWRNOD GWAITH OLYNOL gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Dinas Caerdydd).***

***Rhaid i Awdurdod Cyfrifol neu Bartïon â Diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 10 diwrnod gwaith gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu. Felly rhaid i sylwadau gyrraedd ymhen 11 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cais.***